

# Adroddiad Interim

Asesiad o'r cynnydd a wnaed yn erbyn  
ein Cynllun Blynyddol 2021-22 yn ystod  
y cyfnod rhwng 1 Ebrill a 30 Medi 2021

Hydref 2021

Mae'r Adroddiad Interim hwn yn cwmpasu'r cyfnod rhwng 1 Ebrill a 30 Medi 2021. Fe'i paratowyd ar y cyd, ac fe'i gosodir gerbron y Senedd, gan Archwilydd Cyffredinol Cymru a Chadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru, yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013.

Mae'r Adroddiad Interim yn cynnwys asesiad i ganfod i ba raddau y cyflawnwyd y canlynol:

- mae swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol a Swyddfa Archwilio Cymru wedi cael eu harfer yn gyson â'r Cynllun Blynyddol a baratowyd ar gyfer 2021-22;
- mae cynnydd wedi'i wneud tuag at gyflawni'r blaenoriaethau a nodwyd yn y Cynllun; ac
- mae cynnydd wedi'i wneud tuag at gyrraedd ein targedau ar gyfer y dangosyddion perfformiad allweddol.

Archwilio Cymru yw'r enw anstatudol cyfun am Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n endidau cyfreithiol ar wahân ac sydd â'u swyddogaethau cyfreithiol eu hunain. Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol. O ganlyniad, yn yr Adroddiad hwn, rydym yn cyfeirio'n benodol at yr Archwilydd Cyffredinol neu Swyddfa Archwilio Cymru mewn adrannau lle mae angen bod yn gyfreithiol fanwl.

Os bydd angen i chi gael y cyhoeddiad hwn mewn fformat a/neu iaith arall, neu os bydd gennych unrhyw gwestiynau am ei gynnwys, cysylltwch â ni gan ddefnyddio'r manylion isod.

Archwilio Cymru  
24 Heol y Gadeirlan  
Caerdydd  
CF11 9LJ

Ffôn 02920 320 500  
E-bost: [post@archwilio.cymru](mailto:post@archwilio.cymru)  
Gwefan: [www.archwilio.cymru](http://www.archwilio.cymru)  
Twitter [@WalesAudit](https://twitter.com/WalesAudit)

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

# Cynnwys

---

<b>Rhagair</b>	<b>4</b>
<b>Cyflawni gwaith archwilio</b>	<b>5</b>
<b>Rhedeg y busnes</b>	<b>13</b>
<b>Dangosyddion perfformiad allweddol</b>	<b>19</b>
<b>Atodiadau</b>	
1 Gwaith archwilio lleol	24
2 Archwiliadau ac astudiaethau gwerth am arian cenedlaethol	25
3 Cefnogi craffu ac atebolrwydd effeithiol	26

# Rhagair

---

Mae'r Adroddiad Interim hwn yn disgrifio'r cynnydd yr ydym wedi'i wneud hyd yma tuag at gyflawni ein Cynllun Blynyddol ar gyfer 2021-22.

Yn yr Adroddiad, rydym yn canolbwyntio ar y cynnydd a wnaed dros y cyfnod rhwng 1 Ebrill a 30 Medi 2021 tuag at gyflawni ein rhaglenni gwaith arfaethedig a'n meysydd ffocws cysylltiedig, ac ar gyflawni ein targedau dangosyddion perfformiad allweddol.

Yn ystod y cyfnod adrodd, mae cyflawni ein gwaith wedi'i ategu gan ein pedwar uchelgais cyffredinol. Y rhain yw:

- manteisio'n llawn ar ein persbectif, ein harbenigedd a'n dyfnder mewnwelediad unigryw.
- cryfhau ein sefyllfa fel llais awdurdodol, dibynadwy ac annibynnol.
- cynyddu ein gwelededd, dylanwad a pherthnasedd.
- bod yn sefydliad enghreifftiol ar gyfer y sector cyhoeddus yng Nghymru a thu hwnt.

Rydym yn cadarnhau nad oes angen gwro'n sylweddol oddi wrth y rhaglenni gwaith a nodwyd yn ein Cynllun ar gyfer 2021-22 ac yn falch o adrodd bod bron holl waith a gynlluniwyd naill ai wedi'i gyflawni, neu'n symud ymlaen i gynllunio. Mae hyn yn glod i broffesiynoldeb, ymroddiad a gwaith caled ein staff a'r cydweithrediad a gawn gan y cyrff yr ydym yn eu harchwilio.

Dan arweiniad ein pedwar uchelgais a thrwy ddefnyddio ein cylch gwaith unigryw i ddilyn y bunt gyhoeddus, rydym wedi ymrwymo i adeiladu ar y momentwm hwn am weddill y flwyddyn yn ein rôl fel sbardun i wella wrth wraidd gwasanaethau cyhoeddus Cymru.



**Adrian Crompton**

Archwilydd  
Cyffredinol Cymru



**Lindsay Foyster**

Cadeirydd Swyddfa  
Archwilio Cymru

# Cyflawni gwaith archwilio

## Gwaith craidd



Cynnal gwaith archwilio mewn dros **800** o gyrrff cyhoeddus




Cyflawni rhaglen o archwiliadau ac astudiaethau **gwerth am arian**



Ardystio cynlluniau grant sy'n werth bron i **£1.5 biliwn**



Cymeradwyo tua **£1 biliwn** o daliadau allan o Gronfa Gyfunol Cymru bob mis



**Cefnogi gwaith craffu effeithiol** gan gynnwys gwaith pwyllgorau'r Senedd



Rhannu'r **arfer da** a welwn ar draws gwasanaethau cyhoeddus Cymru



Hwyluso'r gwaith o **ganfod twyll a gwall** drwy'r Fenter Twyll Genedlaethol



Cyflawni rôl **sylwedydd** ar amrywiaeth o weithgorau polisi allweddol

## Gwaith archwilio lleol

- 1 Mae pandemig COVID-19 wedi parhau i darfu ar ein gwaith archwilio ar safleoedd, ond rydym wedi gallu dygymod â'r sefyllfa trwy fabwysiadu trefniadau gweithio hyblyg ar draws timau yn ogystal ag estyn rhai o'n terfynau amser arfaethedig ar gyfer cwblhau. Rydym wedi parhau i weithio ac ymgysylltu o bell â chyrrff cyhoeddus yr ydym yn eu harchwilio, yn bennaf gan ddefnyddio technoleg a phlatfformau cyfathrebu fideo.

- 2 Mae'n dda gennym nodi ein bod yn dal ar y trywydd iawn i gyflawni ein rhaglen lawn o waith archwilio cyfrifon yn 2021-22. Ers cwblhau holl archwiliadau cyfrifon 2020-21 cyrff y GIG ganol mis Mehefin, mae timau archwilio wedi gwneud cynnydd da o ran gwaith cyfrifon llywodraeth ganolog a llywodraeth leol. Erbyn diwedd mis Medi roedd y rhan fwyaf o archwiliadau'r llywodraeth ganolog 2020-21 wedi'u cwblhau yn ogystal ag â nifer o archwiliadau llywodraeth leol.
- 3 Rydym hefyd wedi parhau i lunio ein cynlluniau archwilio llywodraethu a gwerth am arian mewn cyrff unigol a archwilir gan y GIG a llywodraeth leol i ganolbwyntio ar faterion sydd fwyaf perthnasol i'r sefyllfa bresennol ac sy'n esblygu.
- 4 Ceir rhestr gynhwysfawr o'r cyrff cyhoeddus a archwilir gennym a'r mathau o waith archwilio a wneir yn y cyrff hynny yn **Atodiad 1**.

## Archwiliadau ac astudiaethau gwerth am arian cenedlaethol

- 5 Fel a nodwyd mewn mwy o fanylder yn ein Cynllun Blynyddol ym mis Mawrth, rydym yn ystyried mai'r canlynol oedd y prif ffactorau yn ein hamgylchedd gweithredu a fyddai'n dylanwadu ar y ffordd yr ydym yn cyflawni ein gwaith dros y blynyddoedd nesaf:
  - effeithiau pandemig COVID-19
  - goblygiadau Brexit
  - argyfwng yr hinsawdd
  - ymgorffori'r egwyddor datblygu cynaliadwy
  - heriau economaidd-gymdeithasol
  - chymdeithas fwyfwy rhwydweithiol.
- 6 Mae ein rhaglen waith genedlaethol wastad wedi cadw rhywfaint o hyblygrwydd i ymateb i amgylchiadau a blaenoriaethau newidiol a materion sydd o bwys cyhoeddus neu seneddol. Gyda pharhad pandemig COVID-19, rydym wedi parhau i arfer yr hyblygrwydd hwnnw'n fwy nag erioed dros y cyfnod adrodd ac wedi cyhoeddi sawl adroddiad gyda phrif ffocws sy'n gysylltiedig â COVID. Mae'r rhain yn cynnwys:
  - Caffael a chyflenwi Cyfarpar Diogelu Personol ar gyfer pandemig COVID-19; a hefyd
  - Gweithredu rhaglen frechu COVID-19 yng Nghymru.
- 7 Darperir rhestr wedi'i diweddarau o waith a gwblhawyd, gwaith sydd eisoes ar y gweill a gwaith newydd yr ydym yn bwriadu ei wneud yn ddiweddarach yn 2021-22 fel rhan o'n rhaglen genedlaethol yn **Atodiad**

## Cefnogi craffu ac atebolrwydd effeithiol

- 8 Mae ein gwaith yn dal i fod â rôl allweddol o ran cefnogi gwaith y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus newydd wrth iddo ystyried y modd y defnyddir adnoddau ac y cyflawnir swyddogaethau cyhoeddus yng Nghymru.
- 9 Yn yr un modd, mae'r rhan fwyaf o gyrff cyhoeddus yng Nghymru wedi addasu i heriau'r pandemig ac rydym wedi parhau i fynychu cyfarfodydd eu Pwyllgorau Archwilio a Chraffu gan ddefnyddio platfformau cyfathrebu dros fideo i ddarparu sesiynau briffio rheolaidd ac adrodd ar ein gwaith archwilio.
- 10 Yn **Atodiad 3**, rydym yn darparu rhagor o fanylion ynghylch sut yr ydym wedi cefnogi sesiynau tystiolaeth y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, pwyllgorau eraill ac yn fwy cyffredinol ynghylch ein cymorth ar gyfer craffu ac atebolrwydd effeithiol yn hanner cyntaf 2021-22.

## Meysydd ffocws

- 11 Mewn ymateb i'n hamgylchedd gweithredu ac i'n helpu i wireddu ein huchelgeisiau strategol, fe wnaethom nodi naw maes ffocws ar gyfer cyflawni ein gwaith archwilio yn 2021-22. Caiff y cynnydd yr ydym wedi'i wneud tuag at gyflawni pob un o'r rhain yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn ei grynhoi yn y tabl canlynol.

### Maes ffocws

Cyflwyno rhaglen o waith archwilio perthnasol ac amserol sy'n cydnabod ac yn cydymdeimlo â'r pwysau y mae cyrff cyhoeddus yn eu hwynebu yn eu hymateb parhaus i bandemig y coronafeirws, a'r adferiad ohono.

### Yr hyn a gyflawnwyd hyd yma

Yn ystod y cyfnod adrodd, rydym wedi parhau i fonitro'r pwysau a wynebier gan gyrff a archwilir, eu cydnabod a chymdeimlo â hwy. Gan gymryd y pwysau hyn i ystyriaeth, ochr yn ochr â chyfyngiadau parhaus ar ein capasiti ni ein hunain sy'n deillio o effaith y pandemig, rydym wedi addasu'r amserlen ar gyfer cyflawni rhai prosiectau archwilio.

Fodd bynnag, mae ein rhaglen gyffredinol o waith archwilio'n dal i fod ar y trywydd iawn ar y cyfan ac mae wedi parhau i gynnwys sylw i faterion sy'n berthnasol i effaith y pandemig ac adferiad ohono. Mae hyn wedi cynnwys, er enghraifft, ein hadroddiadau ar [Gyfarpar Diogelu Personol](#) ac ar y [Rhaglen frechu yng Nghymru](#), a phrosiect newydd 'Llamu Ymlaen' fel rhan o'n rhaglen archwilio llywodraeth leol. Bydd gwaith cynllunio manwl a gwaith cwmpasu ychwanegol ar gyfer rhai o'r astudiaethau cenedlaethol newydd a nodir yn ein Cynllun Blynyddol yn cael eu gwneud dros gyfnod yr hydref/gaeaf.

## Maes ffocws

Rhoi pwyslais arbennig ar bwysigrwydd rheolaeth ariannol gadarn a llywodraethu da ar draws y sector cyhoeddus, yng ngoleuni'r risgiau cynyddol sy'n gysylltiedig â gwariant cyhoeddus yn ystod y pandemig.

## Yr hyn a gyflawnwyd hyd yma

Ar gyfer archwiliadau cyfrifon 2020-21, rydym wedi ystyried ystyriaethau newydd ar gyfer datganiadau ariannol sy'n deillio'n uniongyrchol o'r pandemig. Mae'r ystyriaethau hyn wedi cynnwys meysydd risg megis:

- methiant posibl trefniadau monitro ansawdd cyrff a archwilir ac effaith gweithio o bell;
- cyfrifyddu priodol ar gyfer y ffrydiau cyllid a gwariant cynyddol yn 2020-21 i ymdrin â phandemig COVID-19;
- cyfrifyddu priodol ar gyfer ysbytai maes;
- ansicrwydd prisio diwedd blwyddyn posibl ar gyfer eiddo, offer a chyfarpar;
- amcangyfrif gwyliau blynyddol a gronnwyd a darpariaethau drwgddyledion;
- gwirio bodolaeth eiddo, offer a chyfarpar a rhestrau eiddo; a
- risg o dwyll, gwallau a'r risg i reoleidd-dra gyda gwariant cynyddol.

Ym mis Mai, gwnaethom gyhoeddi canfyddiadau ein hadolygiad o drefniadau [Llywodraethu ym Mhwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru](#) a oedd yn cynnwys argymhellion ar gyfer Llywodraeth Cymru a'r Pwyllgor.

Ym mis Mehefin, fe gyhoeddodd ni [fersiwn wedi'i diweddarau o'n hoffer data cyllid GIG Cymru](#), gan gynnwys manylion gwariant a oedd yn gysylltiedig â COVID-19. Cafodd data tebyg ei gynnwys yn y ffeithlun ar y we a ryddhawyd gennym ym mis Medi yn dilyn cwblhau [Cyfrifon Cryno'r GIG \(Cymru\) ar gyfer 2020-21](#).

Fe gyhoeddodd ni adroddiad cryno cenedlaethol ar [Gynaliadwyedd Ariannol Llywodraeth Leol](#) hefyd; a oedd yn adlewyrchu effaith y pandemig a heriau yn y dyfodol. Ac roedd ein hallbynnau [Darlun o Wasanaethau Cyhoeddus](#) (un adroddiad cenedlaethol a phum sylwebaeth sector ategol) yn cynnwys sylwadau ar wariant COVID-19 ac ar rai o'r heriau cysylltiedig a ddeilliodd o'r pandemig.



## Maes ffocws

Datblygu dull symlach ar gyfer archwilio sut y mae cyrff cyhoeddus wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth bennu eu hamcanion llesiant ac wrth gymryd camau i gyflawni'r amcanion hynny.

## Yr hyn a gyflawnwyd hyd yma

Dros y chwe mis diwethaf rydym wedi diweddarau ein canllawiau mewnol am sut yr ydym yn mynd ati i wneud y gwaith yma ac wedi cyflwyno hyfforddiant ar gyfer y rhan fwyaf o'n staff archwilio perfformiad. Byddwn yn parhau i ddarparu hyfforddiant trwy ail hanner y flwyddyn ar gyfer aelodau eraill o staff, ac ar y cyd â Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, bydd hyfforddiant ychwanegol ar ddeall yr egwyddor datblygu cynaliadwy'n cael ei ddarparu hefyd.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi ysgrifennu at y cyrff perthnasol a noddir gan Lywodraeth Cymru i gadarnhau ei fod yn bwriadu sefydlu gwaith i gyflawni archwiliadau datblygu cynaliadwy yn y cylch adrodd hwn o fewn ei raglen ehangach o astudiaethau gwerth am arian cenedlaethol. Mae hyn yn adlewyrchu'r dull yr ydym yn ei ddefnyddio ar gyfer ein harchwiliadau datblygu cynaliadwy i'w sefydlu fel rhan annatod o'n rhaglenni gwaith.

Sicrhau bod datblygiad ein dull archwilio yn aros gyfwrch â newidiadau mewn arfer proffesiynol gorau, yn manteisio'n llawn ar ddatblygiadau mewn technoleg ac yn darparu archwiliadau o ansawdd da sy'n diwallu anghenion ein rhanddeiliaid.

Yn ystod y cyfnod adrodd rydym wedi ailstrwythuro a recriwtio i'n Tîm Datblygu ac Arweiniad Archwilio (DAA), sy'n gwneud gwaith manwl a pharhaus i sganio'r gorwel a dadansoddi datblygiadau mewn safonau ansawdd cyfrifyddu ac archwilio i sicrhau ein bod yn gallu ymateb i'r newidiadau arwyddocaol sy'n digwydd.

Mae'r tîm DAA wedi gwneud yn siŵr bod ein canllawiau, methodolegau a gweithgarwch dysgu a datblygu mewnol wedi esblygu i aros gyfwrch â'r newidiadau pwysig hyn yn y proffesiwn archwilio a, thrwy aelodaeth o fforymau a chyrrff proffesiynol, ein bod yn dylanwadu ar safonau a chodau cyfrifyddu lle gallwn.

---

## Maes ffocws

Mireinio pob agwedd ar y ffordd yr ydym yn casglu, dadansoddi a chyflwyno data, gan gynnwys trwy gyrchu symiau mwy yn fwy rheolaidd, mwy o ddefnydd o awtomeiddio, a gwell dulliau o ddelweddu ac adrodd straeon.

Gwella sut yr ydym yn cyfleu ein gwaith archwilio i gael mwy o effaith, gan gynnwys trwy ehangu ystod a chyrrhaeddiad y sianeli yr ydym yn eu defnyddio, a'r sgiliau rydym yn eu meithrin yn ein staff.

## Yr hyn a gyflawnwyd hyd yma

Yn ystod gwaith archwilio cyfrifon 2021-22, rydym wedi treialu platfform cyfrifon electronig newydd a wedi defnyddio Ap dadansoddeg data ar archwiliadau'r GIG. Mae'r ddau brosiect yma'n ceisio gwneud data'n ganolog i'n gwaith archwilio cyfrifon a chynyddu i'r eithaf ein defnydd o dechnoleg ochr yn ochr â'n dull o ddatblygu ansawdd archwilio.

Mewn datblygiad cysylltiedig, rydym wedi sefydlu datrysiad storio data i ddal data allanol ar raddfa fawr yn ddiogel ac rydym hefyd yn gweithio ar brosiect i asesu dichonadwyedd adeiladu warws ddata fewnol ar gyfer mwy o awtomeiddio a delweddu gwell mewn perthynas â'n gwybodaeth a data rheoli mewnol.

Dros y chwe mis diwethaf, rydym wedi parhau i ehangu ein defnydd o ddulliau gwahanol a newydd o gyfleu ein canfyddiadau, gan gynnwys drwy offer data, adroddiadau rhyngweithiol, ffeithluniau a blogiau. Mae enghreifftiau dros y cyfnod adrodd wedi cynnwys:

- Ffeithluniau ac offer data ar [Gyfrifon Cryno'r GIG \(Cymru\)](#) sy'n nodi canlyniadau ariannol cyfun pob un o 11 corff GIG Cymru o ran y sefyllfa ar 31 Mawrth 2021.
- Offeryn data [Adfywio Canol Trefi yng Nghymru](#).
- Blogiau ar [Bryderon ariannol myfyrwyr: ffeithiau a ffigyrau allweddol, Sut y byddwn yn cynorthwyo Cymru i ymateb i her y newid yn yr hinsawdd ac Mae'r gwasanaethau brys yn gweithio orau pan ydynt yn cydweithio](#).

IYn fewnol, rydym wedi dechrau adolygiad o'r broses gyhoeddi o'i dechrau i'w diwedd i ganfod ble y gellir gwneud y newidiadau a fyddai'n cael yr effaith fwyaf, yn enwedig o safbwynt defnyddwyr terfynol ein cynhyrchion. Trwy symleiddio a gwella'r broses rydym yn amcanu at ryddhau adnoddau i ddatblygu ffyrdd newydd ac arloesol o gyfleu ein gwaith archwilio.

---

---

## Maes ffocws

Ymgysylltu'n rhagweithiol â'r Senedd yn dilyn etholiadau mis Mai ac adnewyddu ein perthynas ag aelodau'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus newydd a phwyllgorau eraill i godi ymwybyddiaeth o'n rhaglenni gwaith, a gofyn eu barn amdanynt.

## What has been delivered so far

---

Yn dilyn etholiadau'r Senedd ym mis Mai 2021, mae'r Archwilydd Cyffredinol a staff Archwilio Cymru wedi cynnal cyswllt rheolaidd â thîm clericio'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus newydd i drafod ein rhaglen waith. Fe gefnogom ni ddau gyfarfod ffurfiol gan y Pwyllgor (a gynhaliwyd trwy blatfform cyfathrebu fideo) wrth iddo ystyried ei raglen waith ei hun a oedd yn dod i'r amlwg a'i ffyrdd o weithio.

Rydym wedi darparu ymatebion i bum ymgynghoriad a lanswyd gan bwyllgorau craffu eraill y Senedd i gefnogi'r gwaith o ystyried blaenoriaethau eu rhaglen waith. Yn ein hymatebion, tynnwyd sylw at waith archwilio blaenorol, parhaus ac arfaethedig a allai fod yn berthnasol i waith y Pwyllgorau. Wrth i ni ddatblygu ein strategaeth a'n rhaglen waith pum mlynedd tymor hwy ar gyfer 2022-23, rydym yn rhagweld y byddwn yn gwahodd sylwadau pwyllgorau fel rhan o'n hymgysylltiad ehangach â rhanddeiliaid.

---

Datblygu ar wersi o'n Prosiect Dysgu COVID i wella'r ffordd yr ydym yn rhannu arfer da, gan brif ffrydio dulliau newydd o ddysgu yn barhaus a chryfhau cefnogaeth ar gyfer cyflwyno archwiliadau.

Yn ystod 2020-21, drwy ein Prosiect Dysgu Covid datblygwyd dull newydd o rannu arfer da mewn ffordd fwy arloesol, cynhwysol a hygyrch. Rydym wedi dilyn y dysgu o'r prosiect hwn wrth ddatblygu sesiynau mwy diweddar ar weithio integredig ac adfywio canol trefi a byddwn yn parhau i adeiladu ar y dulliau hyn i gefnogi digwyddiadau yn y dyfodol, gan gynnwys ein gwaith sydd ar y gweill ar newid yn yr hinsawdd.

Hefyd, mae grŵp llywio newydd ar gyfer ein blaenraglen wedi cael ei sefydlu gyda chydweithwyr ar draws Archwilio Cymru i adnabod cyfleoedd dysgu a'u cynyddu i'r eithaf ar bob cam yn ein prosiectau archwilio ac astudiaethau, nid dim ond ar y diwedd unwaith y mae'r adroddiad terfynol wedi cael ei gyhoeddi.

---

---

**Maes ffocws**

Datblygu ystod fwy amrywiol ac effeithiol o fecanweithiau ar gyfer cael barn ein rhanddeiliaid am werth ac effaith ein gwaith.

**What has been delivered so far**

Ym mis Gorffennaf 2021, cyflwynodd Beaufort Research eu hargymhellion i Fwrdd Swyddfa Archwilio Cymru ar ein dull o gasglu adborth gan rhanddeiliaid yn y dyfodol a sut y gallem wella ein cyfathrebu â rhanddeiliaid er mwyn mesur effaith ein gwaith yn well. Yn dilyn hynny, rydym wedi dechrau gweithio ar ehangu'r gronfa o sefydliadau rhanddeiliaid yr ydym yn cael adborth ganddynt, gan gyflwyno mwy o hyblygrwydd yn y dulliau a ddefnyddiwn ar gyfer casglu adborth o'r fath, a chysoni ein rhaglen ymgysylltu ar gyfnodau allweddol wrth gyflawni ein strategaeth bum mlynedd.

Yn ystod hanner cyntaf eleni, rydym hefyd wedi ystyried opsiynau ar gyfer sut y gallwn ymgysylltu'n well â'n rhanddeiliaid fel defnyddwyr ein cynnyrch archwilio. Rydym yn rhagweld y bydd y gwaith hwn yn elfen allweddol o'n strategaeth pum mlynedd sy'n datblygu a byddwn yn llywio datblygiad parhaus ein rhaglen waith.

---

# Rhedeg y busnes

## Gwaith Craidd



Pennu'r gyllideb gyffredinol o **£22 miliwn** a chodi ffioedd am waith archwilio



Cyflogi tua **270 o staff** a rheoli ystof amrywiol o asedau ffisegol a gwybodaeth



Darparu **arweinyddiaeth gadarn** ac ymgorffori ein gwerthoedd a'n hymddygiadau



**Monitro'r** modd y mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cyflawni ei swyddogaethau a rhoi cyngor iddo

- 12 Dros y chwe mis diwethaf, rydym wedi parhau i fonitro'r sefyllfa sy'n esblygu o ran COVID-19 yn fanwl a gweithredu yn unol â chanllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.
- 13 Fe ailagorodd ein swyddfeydd o ddechrau mis Ebrill 2021 i nifer cyfyngedig o unigolion a gafodd eu blaenoriaethu ar ôl ystyried ystyriaethau diogelwch a lles. Rydym wedi cynyddu'n raddol nifer y staff a allai fynd i swyddfa drwy ffurflen mor flaenoriaeth, ond mae'r rhan fwyaf o staff yn parhau i wneud y rhan fwyaf o'u gwaith o bell o'u cartrefi.
- 14 Mae'r Bwrdd, ei Bwyllgorau a'r Tîm Arweinyddiaeth Weithredol wedi gweithredu'n effeithiol dros y cyfnod adrodd gan ddefnyddio llwyfannau cyfarfod ar-lein.
- 15 Ein blaenoriaethau o ran rhedeg y busnes fu addasu a sicrhau cyn lleied â phosibl o darfu ar ein gwaith archwilio a gweithrediad swyddogaethau ein gwasanaethau corfforaethol, gan sicrhau ar yr un pryd ein bod yn gwneud y peth iawn er mwyn ein pobl, gan eu cadw'n ddiogel a monitro eu lles. Trwy gydol y cyfnod adrodd, ein gwreb o hyd yw 'hunan, teulu, gwaith ... yn y drefn honno'.

- 16 I'r perwyl hwn, ffurfiwyd tîm newydd o 'hyrwyddwyr' lles yn gynharach yn y flwyddyn, sydd wedi ymgysylltu wedyn â phob tîm ar draws y sefydliad. Mae'r mewnwelediad a gasglwyd gan y tîm hwn, ochr yn ochr â'n pwyllgor iechyd a diogelwch hirsefydlog, wedi llywio'r gwaith diweddar o ddatblygu Strategaeth Lles Archwilio Cymru newydd.
- 17 Yn ganolog i'n hymateb i'r pandemig fu'r defnydd o dechnolegau sy'n ein galluogi i gysylltu, gweithio a chydweithio o bell ac yn hyblyg ymhlith ein timau a chyda'r cyrff cyhoeddus yr ydym yn eu harchwilio.
- 18 Elfen allweddol arall fu'r defnydd cynyddol o amrywiaeth eang o gyfryngau a mecanweithiau i ymgysylltu â'n gweithwyr. Mae'r mecanweithiau hyn wedi cynnwys:
- negeseuon wythnosol at yr holl staff oddi wrth yr Archwilydd Cyffredinol;
  - postio blogiau rheolaidd gan staff, aelodau o'r Bwrdd a'r Tîm Arwain Gweithredol;
  - cynnal arolygon 'pwls' rheolaidd;
  - cynnal sesiynau briffio ar gyfer y staff cyfan a sesiynau holi ac ateb ar blatfformau cyfathrebu fideo; a
  - darparu gweithgareddau rheolaidd i raeadru gwybodaeth i reolwyr llinell.
- 19 Yn ogystal, ar adeg cyhoeddi'r Adroddiad hwn, rydym yn cynnal ein harolwg staff blynyddol. Unwaith eto, rydym yn defnyddio'r un holiadur arolwg craidd ag a ddefnyddir yn Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil i alluogi meincnodi effeithiol a chymharu o flwyddyn i flwyddyn. Mae adran ychwanegol fer hefyd yn archwilio profiadau unigolion o weithio yn Archwilio Cymru yn ystod pandemig y coronafeirws (COVID-19)..
- 20 Daw oddeutu dwy ran o dair o'n cyllid o ffioedd a godir ar gyrff a archwilir yn unol â chynllun ffioedd a gymeradwywyd gan y Senedd. Mae'r rhan fwyaf o'r gweddill yn cynnwys cyllid cymeradwy o Gronfa Gyfunol Cymru, y mae'r Bwrdd yn craffu ar ein defnydd ohono'n rheolaidd yn ystod y flwyddyn. Cafodd y blaenoriaethau allweddol ar gyfer ein defnydd o adnoddau yn 2021-22 eu nodi'n wreiddiol mewn Amcangyfrif, a gafodd ei ystyried a'i gymeradwyo gan Bwyllgor Cyllid y Senedd ym mis Tachwedd 2020.

## Meysydd ffocws

- 21 Mewn ymateb i'n hamgylchedd gweithredu ac i'n helpu i wireddu ein huchelgeisiau strategol, fe wnaethom adnabod chwe maes ffocws ar gyfer y modd yr ydym yn rhedeg y busnes yn 2021-22. Caiff y cynnydd yr ydym wedi'i wneud tuag at gyflawni pob un o'r rhain yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn ei grynhoi yn y tabl canlynol.

Maes ffocws	Yr hyn a gyflawnwyd hyd yma
<p>Blaenoriaethu cefnogaeth barhaus i iechyd a lles staff Archwilio Cymru wrth inni symud o ddull 'ymateb' i ddull 'adfer' o ran pandemig COVID-19.</p>	<p>Mae iechyd a lles ein staff wedi bod yn flaenoriaeth allweddol drwy gydol y pandemig. O ganlyniad, thema gyson yn ein hymgysylltiad â staff fu pwysigrwydd cynnal cydbwysedd iach a chynaliadwy rhwng gwaith a bywyd cartref.</p> <p>Cafodd y thema hon ei ffurfioli wrth gyhoeddi ein Strategaeth Lles newydd, a gymeradwywyd gan y Bwrdd ym mis Gorffennaf 2021.</p> <p>Mae'r Strategaeth Lles yn cynnwys tri phrif faes – 'Gweithio'n Dda, Byw'n Dda a Ffynnon Cymedrig' – sydd i gyd wedi'u hategu gan gyfres o nodau sy'n nodi'n fanylach yr hyn yr ydym yn ymdrechu i'w gyflawni.</p> <p>Mae rheolwyr ledled y sefydliad wedi bod yn rhan o'r gwaith o ddatblygu cynllun gweithredu Lles, gyda chanlyniadau, mesurau a champau gweithredu penodol i gyflawni nodau'r strategaeth a sicrhau bod ein staff yn cael eu cefnogi wrth i ni symud ymlaen.</p>
<p>Cynnal adolygiad o'r amcanion cydraddoldeb a nodir yn ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol i sicrhau eu bod yn dal i fod yn addas at y diben ac yn cyd-fynd yn llawn â'n huchelgeisiau sefydliadol cyffredinol.</p>	<p>Disgwylir i'r adolygiad o'n hamcanion cydraddoldeb ddechrau ym mis Tachwedd 2021.</p>

## Maes ffocws

## Yr hyn a gyflawnwyd hyd yma

Gwireddu manteision uwch dîm arwain wedi'i gryfhau trwy ddatblygu perthnasoedd gwaith gwell rhwng y Bwrdd a'r Tîm Arwain Gweithredol sydd newydd ei ffurfio.

Yn dilyn sefydlu ein Tîm Arweinyddiaeth Weithredol (TAG) newydd ym mis Mawrth 2021, rydym wedi diweddarau ei gylch gorchwyl i egluro cyfrifoldebau Cyfarwyddwyr Gweithredol o ran gwneud penderfyniadau a'r rôl gefnogol a chwaraeir gan banel staff sydd newydd ei benodi. Dros y chwe mis diwethaf, mae'r TAG wedi bod yn gweithio gyda hyfforddwr gweithredol i gefnogi ei ddatblygiad cynnar.

Gwahoddir holl aelodau TAG yn awr i fynychu holl gyfarfodydd y Bwrdd. Mae hyn wedi cefnogi'r gwaith o ddatblygu perthynas waith agosach rhwng TAG a'r Bwrdd, sydd wedi chwarae rhan allweddol wrth lunio ein hymateb i'r pandemig a datblygu strategaeth pum mlynedd newydd ar gyfer y sefydliad.

Cwblhawyd adolygiad annibynnol o effeithiolrwydd y Bwrdd yn ddiweddar. Roedd ei gylch gwaith yn cynnwys archwilio ffyrdd y gellid cryfhau a datblygu'r berthynas waith rhwng TAG a'r Bwrdd ymhellach.

Cwblhau ein gwaith ar ddatblygu cynigion i ddiwallu ein hanghenion o ran swyddfeydd yn y dyfodol, er mwyn i'r Bwrdd allu gwneud penderfyniad yn 2022-23.

Ym mis Mehefin fe wnaeth Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru'r penderfyniad allweddol i estyn y brydles yn ein swyddfa yng Nghaerdydd am flwyddyn arall, tan fis Mawrth 2024. Bydd hyn yn ein galluogi i ddygymod â'r ansicrwydd ynghylch sut y byddwn ni a'n cleientiaid yn gweithio ar ôl y pandemig ac i barhau i weithio gydag asiantau eiddo i adolygu cyfleoedd yn y farchnad eiddo. Rydym yn awyddus bod unrhyw swyddfeydd yr ydym yn buddsoddi ynddynt yn ategu ein hymgais i feddwl am yr economi gymdeithasol a chylchol. Bydd cynlluniau diwygiedig yn cael eu hystyried gan y Bwrdd yn 2022.

Am y tro, rydym yn dal i fod yn rhan o'r drafodaeth ehangach ar draws y sector cyhoeddus ynghylch defnyddio un ystâd gyhoeddus ac yn achub ar bob cyfle i dreialu ffyrdd newydd o weithio, gan gynnwys lleoliadau a hybiau gweithgareddau, i helpu i oleuo penderfyniadau ynglŷn ag anghenion o ran swyddfeydd yn y dyfodol. I ddarparu eglurder fe wnaeth y Tîm Arwain Gweithredol gyhoeddi set o egwyddorion lefel-uchel hefyd ar gyfer sut y byddwn ni i gyd yn gweithio gydag athroniaeth danategol o 'wasanaethau archwilio hyblyg a ddarperir gan weithlu hyblyg'. Trwy lunio un set o egwyddorion syml mae gan reolwyr annibyniaeth a dewis i weithio gyda'u timau ar sut orau i ymdrin â mater defnyddio swyddfeydd yn y dyfodol.



## Maes ffocws

## Yr hyn a gyflawnwyd hyd yma

Sefydlu'r egwyddor datblygu cynaliadwy i raddau mwy helaeth yn ein prosesau penderfynu, gan gynnwys wrth:

- gynnal adolygiad o'n trefniadau teithio a chynhaliaeth ar gyfer staff;
- arbrofi â ffyrdd newydd, mwy effeithlon a doethach o weithio; a'u gwerthuso; a
- phennu ein trywydd ar gyfer symud tuag at allyriadau nwyon tŷ gwydr sero net.

Fe wnaeth Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru ymrwymiad i sefydlu egwyddor datblygu cynaliadwy yn y ffordd y mae'n rhedeg y busnes ac yn gwneud penderfyniadau, ac i archwilio sut y gall gymhwyso'r pum ffordd o weithio ymhellach i weithrediadau parhaus.

Yn ymarferol, mae cymhwyso'r pum ffordd o weithio'n golygu eu defnyddio i ddatblygu cynlluniau a strategaethau allweddol, gan sicrhau eu bod yn cael eu sefydlu'n llawn yn y ffordd o feddwl sy'n tanategu gweithrediadau o ddydd i ddydd. Rydym felly'n canolbwyntio ar ystyried yr egwyddor wrth ddatblygu ein strategaeth bum mlynedd, a'r prosiectau a phrosesau corfforaethol allweddol a fydd o gymorth i'w chyflawni.

Cyflawni allyriadau sero net yw un o'n dyheadau allweddol ar gyfer ein ffyrdd o weithio yn y dyfodol. Bydd yr holl benderfyniadau a wnawn am y dyfodol, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â'r adeiladau yr ydym yn eu meddiannu a sut rydym yn rheoli ein cymudo a theithio busnes, yn ystyried ein hymrwymiad i gyflawni'r nod hwn.

## Maes ffocws

Moderneiddio'r ffordd yr ydym yn gweithio, gan gynnwys trwy wneud gwell defnydd o dechnoleg ddigidol i'n galluogi i fod yn fwy ystwyth ac yn fwy parod i addasu mewn amgylchedd sy'n esblygu.

## Yr hyn a gyflawnwyd hyd yma

Tanategir ein hegwyddorion o ran ffyrdd o weithio yn y dyfodol gan ddyhead i fod yn sefydliad blaengar, digidol ac mae'r pandemig wedi bod yn sbardun mewn llawer o ffyrdd ar gyfer moderneiddio'r ffordd yr ydym yn gweithio. Yn ystof y cyfnod adroddiad, mae defnyddio technolegau wedi ein galluogi i gysylltu, gweithio a chydweithio o bell ac yn hyblyg yn fewnol a chyda'r cyrff cyhoeddus yr ydym yn eu harchwilio.

Mae hyn wedi cynnwys:

- mwy o fynediad o bell at systemau ariannol cleientiaid;
- buddsoddi mewn gliniaduron hybrid i alluogi staff i barhau i weithio'n effeithlon ac yn effeithiol;
- datblygu fframwaith sgiliau digidol i gryfhau sgiliau craidd yr holl staff;
- cwblhau'r broses o wella seiberddiogelwch ar ein wefan;
- dwyn ynghyd yr amryw elfennau o ddatblygiadau digidol a thechnolegol dan drosolwg Grŵp Llywio Digidol sy'n gyfrifol am lywodraethu'r holl agenda ddigidol yn Archwilio Cymru.

Elfen allweddol arall o foderneiddio'r ffordd rydym yn gweithio dros y cyfnod adrodd fu ystyried cynigion ar gyfer diwygio ein cynllun teithio a chynhaliaeth. Cymeradwywyd cynigion a ddatblygwyd gan grŵp gorchwyl a gorffen staff gan y Bwrdd a'r Tîm Arweinyddiaeth Weithredol ym mis Gorffennaf 2021 ac ers hynny cynhaliwyd cyfres o ddigwyddiadau ymgynghori staff ac undebau llafur.



# Dangosyddion perfformiad allweddol

Caiff y sefyllfa ar 30 Medi 2021 o ran cyrraedd y targedau ar gyfer ein 18 o ddangosyddion perfformiad allweddol ei chrynhoi isod.

## DPA Cyflawni Gwaith Archwilio

Rhif	Dangosydd	Disgrifiad	Targed	Perfformiad hyd at 30 Medi
1	Terfynau amser statudol	Cyfran y cynhyrchion archwilio a gyflawnwyd erbyn y terfyn amser statudol gofynnol.	100%	98%
2	Ar amser	Cyfran y cynhyrchion archwilio allweddol eraill a gyflawnwyd yn unol â'r amserlen arfaethedig ar gyfer sicrhau adroddiadau amserol ac effeithiol.	90%	83%
3	Ansawdd	Cyfran yr archwiliadau wedi'u hadolygu a gyflwynwyd yn unol â safonau ansawdd y Cyngor Adrodd Ariannol (FRC).	Canfu'r asesiad fod 100% o'r sampl yn foddhaol neu'n uwch, a 90% yn dda neu'n uwch <sup>1</sup>	Dim ar gael eto <sup>2</sup>
4	Hygrededd	Cyfran y rhanddeiliaid <sup>3</sup> sy'n ystyried ein bod yn gyfathrebwr annibynnol ac awdurdodol ar lywodraethu a gwarchod arian ac asedau cyhoeddus.	o leiaf 90%	96%

1 Lle mae 'da' yn cyfateb i gategori ansawdd archwilio 2A y Cyngor Adrodd Ariannol, a 'boddhaol' yn cyfateb i gategori 2B.

2 Cynhelir adolygiadau yn ail hanner 2021-22.

3 Cynhaliwyd arolwg o Aelodau'r Senedd ym mis Mawrth 2021 yn gofyn am eu barn ar werth ac effaith ein gwaith. 19 Bu'r Aelodau'n ymgysylltu â'n harolwg ac yn ymateb iddo. Mae ein perfformiad yn erbyn dangosyddion 4 i 6 yn cael ei gymryd o ganlyniadau'r arolwg hwn.

Rhif	Dangosydd	Disgrifiad	Targed	Perfformiad hyd at 30 Medi
5	Darparu mewnwelediad	Cyfran y rhanddeiliaid a ddywedodd eu bod, trwy ein gwaith, wedi cael mewnwelediad defnyddiol na fyddent wedi'i gael fel arall.	o leiaf 80%	89%
6	Ysgogi gwelliant	Cyfran y rhanddeiliaid sy'n credu bod ein gwaith wedi arwain at welliannau o ran darparu gwasanaethau cyhoeddus.	o leiaf 80%	84%
7	Arbedion a adnabuwyd	Gwerth arbedion posibl a adnabuwyd trwy ein gwaith.	o leiaf £30 miliwn yn ystod 2019-2022	£35.6 miliwn
8	Digwyddiadau arfer da	Cyfran y rhanddeiliaid a ddywedodd fod ein digwyddiadau arfer da yn ddefnyddiol neu'n ddefnyddiol iawn.	o leiaf 90%	96%
9	Ymweliadau â'r wefan	Nifer yr ymweliadau â'n gwefan lle cyflawnwyd o leiaf un weithred, ee lawrlwytho adroddiad, clicio ar fideo.	35,000 bob blwyddyn	19,965
10	Cyfryngau cymdeithasol	Nifer yr ymgysylltiadau ar y cyfryngau cymdeithasol, hy rhyngweithio â'n postiadau fel hoffi, rhoi sylw, neu ail-drydar / rhannu.	3,000 bob blwyddyn	1,758
11	Rhannu gwersi o waith archwilio	Nifer yr achosion lle rydym yn cyflwyno gwersi o waith archwilio i weithgorau polisi allweddol neu mewn digwyddiadau perthnasol a gynhelir yn allanol.	50 bob blwyddyn	26 <sup>4</sup>

4 Mae hwn yn ffigur dros dro a gaiff ei ddilysu ar ddiwedd y flwyddyn.

## DPA cynnal y busnes

Rhif	Dangosydd	Disgrifiad	Targed	Perfformiad hyd at 30 Medi
12	Ymgysylltu â chyflogeion	Canran sgôr mynegai ymgysylltu â chyflogeion cadarnhaol yn yr arolwg staff blynyddol, wedi'i alinio â sgôr Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil (CSPS). <sup>5</sup>	Sgôr yn y 10% uchaf o leiaf ar gyfer y CSPS diweddaraf	70%
13	Profiad cyflogeion	Canran sgôr profiad thematig cyflogeion cadarnhaol yn yr arolwg staff blynyddol.	Sgoriau yn y 25% uchaf o leiaf ar gyfer y CSPS diweddaraf	2 allan o 10 thema wedi cael sgoriau yn y 25% uchaf
14	Absenoldeb oherwydd salwch	Diwrnodau gwaith ar gyfartaledd a gollwyd fesul aelod o staff y flwyddyn.	Llai na chwe niwrnod	7 diwrnod
15	Mantol ariannol	Lefel yr amrywiant mewn incwm a gwariant gros o'r hyn a nodwyd yn ein hamcangyfrif ar gyfer y flwyddyn gyfredol.	o fewn 2% i'r gyllideb	0.05%
16	Arbedion o ran costau ac effeithlonrwydd	Gwerth arbedion o ran costau ac effeithlonrwydd a adnabuwyd drwy'r busnes.	£1.3 miliwn yn 2020-21	£1.55 miliwn
17	Allryiadau nwyon tŷ gwydr	Cyfanswm yr allyriadau cyfwerth â CO <sub>2</sub> o ffynonellau yr ydym yn berchen arnynt neu'n eu rheoli, o ddefnyddio trydan, ac a gynhyrchir yn anuniongyrchol o ganlyniad i'n gweithgareddau.	300 tonnell yn 2020-21	39 tonnell

5 Themâu allweddol profiad cyflogeion CSPS yw: amcan a phwrpas sefydliadol; arwain a rheoli newid; diwylliant sefydliadol; fy rheolwr; fy ngwaith; fy nhîm; cynhwysiant a thriniaeth deg; dysgu a datblygu; adnoddau a llwyth gwaith; tâl a buddion; a gweithredu.

Rhif	Dangosydd	Disgrifiad	Targed	Perfformiad hyd at 30 Medi
18	Cyfradd llwyddiant hyfforddeion	Cyfran yr hyfforddeion sy'n llwyddo'r tro cyntaf yn eu harholiadau lefel Broffesiynol ac Uwch gyda Sefydliad y Cyfrifwyr Siartredig yng Nghymru a Lloegr.	o leiaf 90%	Dim ar gael eto <sup>6</sup>

6 Ni dderbyniwyd unrhyw ganlyniadau arholiad perthnasol yn ystod y cyfnod adrodd; cynhelir yr arholiadau nesaf ym mis Tachwedd 2021 a bydd y canlyniadau ar gael ym mis Rhagfyr.



# Atodiadau

---

- 1 Gwaith archwilio lleol**
- 2 Archwiliadau ac astudiaethau gwerth am arian cenedlaethol**
- 3 Cefnogi craffu ac atebolrwydd effeithiol**

# 1 Gwaith archwilio lleol

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gwneud gwaith lleol yn y mwyafrif o gyrrff cyhoeddus yng Nghymru. Mae'r rhaglen yn cynnwys archwiliadau o gyfrifon, gwaith archwilio perfformiad lleol a gwaith llesiant cenedlaethau'r dyfodol.

Corff cyhoeddus	Archwilio cyfrifon	Gwaith archwilio perfformiad lleol <sup>7</sup>	Gwaith llesiant cenedlaethau'r dyfodol
Comisiwn y Senedd	✓		
Llywodraeth Cymru	✓		✓
8 corff a noddir gan Lywodraeth Cymru	✓		✓ <sup>8</sup>
Awdurdod Cyllid Cymru gan gynnwys y datganiad treth	✓		
4 cwmni Llywodraeth Cymru	✓		
8 Comisiynydd, Arolygwyr a Rheoleiddwyr	✓		
7 Bwrdd Iechyd Lleol	✓	✓	✓
3 Ymddiriedolaeth GIG a 2 Awdurdod Iechyd Arbennig	✓	✓	✓ <sup>9</sup>
22 Cyngor (Awdurdodau Unedol)	✓	✓	✓
4 Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd a Phrif Gwnstablaiid	✓	✓	✓
3 Awdurdod Tân ac Achub	✓	✓	✓
3 Awdurdod Parc Cenedlaethol	✓	✓	✓
9 Cronfa Bensiwn	✓		
Cyd-bwyllgorau Corfforaethol a Bargeinion Dinesig	✓	✓	
Sawl corff llywodraeth leol llai gan gynnwys Cydbwyllgorau Corfforedig, Cydbwyllgorau eraill, Ardaloedd Draenio, Awdurdodau Harbwr a Bargeinion Dinesig.	✓		
Dros 730 o Gynghorau Tref a Chymuned	✓ <sup>10</sup>		

7 Nid yw'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal rhaglen o waith archwilio perfformiad lleol ym mhob corff llywodraeth ganolog. Ar hyn o bryd mae gwaith archwilio perfformiad a gynhelir yn y sector hwn yn rhan o'i raglen o archwiliadau ac astudiaethau gwerth am arian cenedlaethol.

8 Dim ond ar gyfer cyrff rhestredig o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

9 Dim ond ar gyfer cyrff rhestredig o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

10 Ar sail sicrwydd cyfyngedig.



## 2 Archwiliadau ac astudiaethau gwerth am arian cenedlaethol

Mae'r rhaglen waith hon yn cynnwys archwiliadau gwerth am arian, astudiaethau llywodraeth leol, a pharatoi adroddiadau cryno o ganfyddiadau o waith archwilio lleol ar draws sawl corff GIG, llywodraeth ganolog a/neu llywodraeth leol.

Mae hefyd yn cynnwys archwiliadau a gynhaliwyd mewn ymateb i faterion o bryder cyhoeddus a nodwyd trwy ein gwaith archwilio neu a godwyd gyda'r Archwilydd Cyffredinol trwy ohebiaeth. Mae'r allbynnau o lawer o'r rhaglen hon yn cefnogi gwaith Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Senedd a phwyllgorau eraill y Senedd.

Rydym yn adolygu ein cynlluniau'n rheolaidd, gan ystyried ein blaenoriaethau archwilio, ein cyd-destun darparu adnoddau ni ein hunain a chapasiti'r cyrff a archwilir gennym i ymgysylltu â ni

Gwaith a gwblhawyd yn gyfan gwbl neu a gwblhawyd yn sylweddol	
<a href="#"><u>Caffael a Chyflenwi Cyfarpar Diogelu Personol ar gyfer Pandemig COVID-19</u></a>	<a href="#"><u>Yn ôl eich doethineb – Gwasanaethau Dewisol Llywodraeth Leol</u></a>
<a href="#"><u>Trefniadau Llywodraethu Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru<sup>11</sup></u></a>	<a href="#"><u>Offeryn Data Cyllid GIG Cymru – hyd at fis Mawrth 2021</u></a>
<a href="#"><u>Gweithredu rhaglen frechu COVID-19 yng Nghymru</u></a>	<a href="#"><u>Cyllid myfyrwyr</u></a>
<a href="#"><u>Adfywio Canol Trefi yng Nghymru</u></a>	<a href="#"><u>Darlun o Wasanaethau Cyhoeddus<sup>12</sup></u></a>

11 Ariannwyd y darn hwn o waith yn bennaf gan ffioedd lleol ond fe'i hategwyd gan gyllid gan Gronfa Gyfunol Cymru i gefnogi gwneud argymhellion ychwanegol i Lywodraeth Cymru.

12 Pecyn o ddeunyddiau yw hwn; cyhoeddwyd y prif adroddiad ar 15 Medi 2021 gyda chyfres o bum sylwebaeth sector yn cael eu cyhoeddi wedyn ar [iechyd, gofal cymdeithasol, llywodraeth leol, ysgolion ac addysg uwch a phellach](#).

**Gwaith a gwblhawyd yn gyfan gwbl neu a gwblhawyd yn sylweddol**

Cynaliadwyedd Ariannol Llywodraeth Leol - Effaith COVID-19, Adferiad a Heriau yn y Dyfodol

Gofalu am y Gofalwyr: Cefnogi lles staff y GIG yn ystod pandemig COVID-19

Rhaglen Cartrefi Cynnes – Nyth ac Arbed

**Gwaith sydd ar y gweill neu a fydd yn dechrau'n fuan**

Gofal Heb Ei Drefnu – Adolygiad o'r System Gyfan

Rheoli grantiau Llywodraeth Cymru

Y Ddyletswydd Cydraddoldeb Gyffredinol – Aseidiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Cydweithio rhwng y gwasanaethau brys

Taliadau uniongyrchol

Diwygio'r cwricwlwm

Gwasanaethau orthopaedig

Gweithlu Llywodraeth Cymru

Anghenion cymhleth a thlodi – yr her i lywodraeth leol

Meithrin cydnerthedd a hunanddibyniaeth cymunedau

Mentrau cymdeithasol

Sylwebaeth gryno o waith gwerth am arian lleol y GIG

Offeryn data amseroedd aros y GIG a sylwebaeth ar ofal wedi'i gynllunio

Tai fforddiadwy

Rheoli perygl llifogydd

Seilwaith band eang

Ymateb i COVID-19 ac adfer ohono

Y newid yn yr hinsawdd

Sylwebaeth ar gyfrifon Llywodraeth Cymru

Pennu amcanion llesiant gan Lywodraeth Cymru

Offeryn data cynaliadwyedd ariannol llywodraeth leol

## 3 Cefnogi craffu ac atebolrwydd effeithiol

### Cefnogi gwaith y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus a Phwyllgorau eraill y Senedd

Pwyllgorau yw un o'r mecanweithiau allweddol sy'n galluogi'r Senedd i gyflawni ei swyddogaethau statudol a chyfansoddiadol. Yn dilyn etholiadau mis Mai 2021, ffurfiwyd pwyllgorau newydd ar gyfer chweched sesiwn y Senedd. Ym mis Gorffennaf, ysgrifennodd yr Archwilydd Cyffredinol at Gadeiryddion naw o'r pwyllgorau hyn i godi ymwybyddiaeth a hybu eu dealltwriaeth o waith Archwilio Cymru.

Mae ein gwaith yn chwarae rhan allweddol yn y gwaith o gefnogi gwaith y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus newydd wrth ystyried y defnydd o adnoddau a chyflawni swyddogaethau cyhoeddus yng Nghymru. Rydym wedi cadw mewn cysylltiad rheolaidd â thîm clericio Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus drwy gydol y cyfnod adrodd i drafod ein rhaglen waith ac mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi cyfarfod â nifer o aelodau unigol. Gwnaethom hefyd gefnogi dau gyfarfod o'r Pwyllgor lle'r oedd yn ystyried ei raglen waith ei hun a ffardd o weithio.

Ym mis Medi, fe wnaeth y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus ystyried chwe adroddiad yr oeddem wedi'u cyhoeddi dros y saith mis blaenorol ar y canlynol:

- [Cyflenwi Gwasanaeth TGCh Llywodraeth Cymru yn Fewnol](#)
- [Profi, Orlhain, Diogelu yng Nghymru](#)
- [Caffael a Chyflenwi Cyfarpar Diogelu Personol](#)
- [Trefniadau Llywodraethu Ansawdd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg](#)
- [Trefniadau Llywodraethu Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru](#)
- [Gweithredu Rhaglen Frechu COVID-19 yng Nghymru](#)

Yn ystod mis Gorffennaf ac Awst 2021, cyfarfu'r Archwilydd Cyffredinol a Chadeirydd Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru hefyd â Chadeirydd ac aelodau eraill y Pwyllgor Cyllid newydd, ac ym mis Medi rhoddodd friff i'r Pwyllgor mewn sesiwn breifat. Roedd y papur briffio yn cwmpasu meysydd gan gynnwys strategaeth a sefyllfa ariannu Archwilio Cymru, ein profiadau o weithio drwy'r pandemig, a'r pwysau a'r heriau allweddol sy'n ein hwynebu ar hyn o bryd, gan gynnwys datblygiadau ehangach yn y proffesiwn archwilio.

Rydym hefyd wedi ymateb i bum ymgynghoriad a lanswyd gan bwyllgorau Senedd eraill, i roi cymorth iddynt ystyried blaenoriaethau eu blaenraglenni gwaith. Fe wnaethom dynnu sylw at waith archwilio blaenorol a pharhaus neu arfaethedig a allai fod yn berthnasol i faterion sy'n dod i'r amlwg o'u hymgyngoriadau.

## **Cefnogi gwaith pwyllgorau archwilio a chraffu cyrff cyhoeddus**

Trwy gyfnod yr adroddiad interim, rydym wedi parhau i fethu â bod yn bresennol yn y cnaud yng nghyfarfodydd pwyllgorau archwilio a chraffu'r prif gyrff a archwilir gennym. Fodd bynnag, mae cyrff cyhoeddus yng Nghymru wedi addasu i heriau'r sefyllfa ac rydym nawr yn mynychu'r cyfarfodydd hynny'n rheolaidd gan ddefnyddio platfformau cyfathrebu fideo.

Rydym yn dal i frifio a darparu adroddiadau ar ein gwaith archwilio ynghyd â rhoi cyngor a chymorth i gryfhau effeithiolrwydd llywodraethu.

## **Cefnogi'r cyhoedd a'u cynrychiolwyr lleol**

Rydym yn cael gohebiaeth yn rheolaidd gan y cyhoedd, eu cynrychiolwyr lleol a chenedlaethol ac eraill sy'n codi pryderon posibl ynghylch gwarchod arian ac asedau cyhoeddus.

Yn ystod y cyfnod adrodd, cawsom 29 eitem o ohebiaeth ac fe wnaethom sicrhau ein bod yn ymateb i'r pryderon hynny mewn modd teg, cymesur a phroffesiynol. Hefyd, fe gysylltodd naw unigolyn â ni rhwng 1 Ebrill a 30 Medi 2021 i ddynodi eu bod yn dymuno gwneud datgeliad chwythu'r chwiban.

Lle mae angen i dimau archwilio wneud gwaith ymchwiliadol pellach mewn ymateb i unrhyw bryderon a godir trwy ohebiaeth neu ddatgeliadau chwythu'r chwiban, mae'r gwaith yma'n nodweddiadol yn cymryd ychydig yn hwy nag a fyddai i'w ddisgwyl fel arfer oherwydd yr angen i weithio o bell. Os nad ydym yn gallu darparu ymateb terfynol i'r gohebydd/datgelydd o fewn 30 diwrnod gwaith, byddwn yn darparu ymateb interim gan gynnwys amcangyfrif o'r raddfa amser ar gyfer darparu ymateb llawn lle bo'n bosibl.



Archwilio Cymru  
24 Heol y Gadeirlan  
Caerdydd  
CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

Rydym yn croesawu gohebiaeth  
a galwadau ffôn yn Gymraeg a  
Saesneg.

E-bost: [post@archwilio.cymru](mailto:post@archwilio.cymru)

Gwefan: [www.archwilio.cymru](http://www.archwilio.cymru)